Ysgol Gatholig Crist y Gair, Y Rhyl.

Yn ystod 2017, aeth Cyngor Sir Ddinbych ac Esgobaeth Wrecsam drwy'r broses ymgynghori ffurfiol ynglŷn â chynlluniau ar gyfer ysgol Gatholig 3-16 newydd yn y Rhyl, roedd hyn yn cynnwys uno'r ysgolion cyfagos, Ysgol Mair (cynradd) ac Ysgol Uwchradd y Bendigaid Edward Jones. Yr ysgogwr cyntaf ar gyfer newid oedd yr angen i wella'r cyfleusterau dysgu ac addysgu yn y ddwy ysgol.

Bydd yr ysgol newydd yn agor ar 1 Medi 2019 mewn adeilad newydd sbon ar safle presennol y ddwy ysgol a bydd yr ysgolion presennol yn cau. Dyma'r ysgol ffydd gyntaf yng Nghymru a ariannwyd drwy'r rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif.

Ar 29 Mehefin 2018 cyhoeddodd Esgob Wrecsam y byddai'r ysgol newydd yn cael ei galw'n: Ysgol Gatholig Crist y Gair.

Bydd adran gynradd yr ysgol newydd ar gyfer 420 disgybl llawn amser gyda nifer derbyn yn 60. Bydd elfen uwchradd yr ysgol ar gyfer lleiafrif o 500 disgybl, felly mynediad pedwar dosbarth, gyda nifer derbyn cyffredinol o leiaf 100. Bydd hyn yn creu lleiafswm o 40 lle ychwanegol yn ogystal â'r 60 sydd eisoes wedi eu derbyn yn yr ysgol yn y sector cynradd.

Beth fydd yn yr adeilad newydd?

Bydd yr adeilad newydd yn cynnwys:

- capel
- neuadd chwaraeon 4 cwrt
- Prif neuadd a neuadd llai

- stiwdio ddrama
- cae pob tywydd
- ystafelloedd dosbarth arbenigol fel cerdd, technoleg dylunio, gwyddoniaeth ac ati.

Cafodd y corff llywodraethu cysgodol ei benodi yn 2017 ac mae wedi dechrau paratoi ar gyfer yr ysgol newydd, mae hyn yn cynnwys penodi pennaeth newydd. Mae'r pennaeth newydd wedi'i benodi a bydd yn dechrau yn ei swydd ar 1 Medi, fodd bynnag gobeithio y bydd y pennaeth yn dechrau yn y swydd yn gynt. Pan fydd Ysgol Mair ac Ysgol y Bendigaid Edward Jones yn cau, bydd disgyblion o'r ysgolion hynny'n cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r Ysgol Gatholig yn y Rhyl heblaw y gwnaed unrhyw drefniadau eraill.

Prif Gerrig Milltir

- Mehefin 2018 - gwaith adeiladu ar yr adeilad newydd i ddechrau
- Medi 2018 - cylch derbyn yn agor ar gyfer ymgeiswyr Medi 2019
- Ionawr 2019 – penodi Pennaeth
- Medi 2019 - yr ysgol newydd yn agor
- Ebrill 2020 – y safle cyfan wedi'i gwblhau